OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1126 (Cy. 188)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yn sefydliad o dan adran 83(4) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan ddarparwr sy'n gwneud cais am ddynodiad.

Mae rheoliad 4 yn ymdrin â'r broses o wneud penderfyniadau a'r weithdrefn ar gyfer tynnu dynodiad yn ôl.

Mae rheoliad 5 yn darparu na chaniateir i ddynodiad gael ei dynnu'n ôl tra bod darparwr wedi ei gofrestru gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, neu tra ei fod yn dal i gael ei drin fel pe bai wedi ei gofrestru at unrhyw ddiben.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2024 No. 1126 (W. 188)

EDUCATION, WALES

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Designation of Providers) Regulations 2024

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision about the Welsh Ministers' power to designate a provider of tertiary education as an institution under section 83(4) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.

Regulation 3 sets out the procedure to be followed by a provider applying for designation.

Regulation 4 deals with the decision-making process and procedure for withdrawing a designation.

Regulation 5 provides that a designation may not be withdrawn while a provider is registered with the Commission for Tertiary Education and Research, or while it is still being treated as registered for any purpose.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2024 Rhif 1126 (Cy. 188)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024

Gwnaed	*6 Tachwedd 2024*
Yn dod i rym	*11 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 83(4) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad, yn unol ag adran 143(3) a (4)(b) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Tachwedd 2024.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "addysg drydyddol" ("*tertiary education*") yr ystyr a roddir gan adran 144(1) o Ddeddf 2022;

mae i "darparwr cofrestredig" ("*registered provider*") yr ystyr a roddir gan adran 144(1) o Ddeddf 2022;

ystyr "Deddf 2022" ("*the 2022 Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

(**1**) 2022 dsc 1.

2024 No. 1126 (W. 188)

EDUCATION, WALES

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Designation of Providers) Regulations 2024

Made	*6 November 2024*
Coming into force	*11 November 2024*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 83(4) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**).

A draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru, in accordance with section 143(3) and (4)(b) of that Act.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Designation of Providers) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 11 November 2024.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2022 Act" ("*Deddf 2022*") means the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022;

"charity regulator" ("*rheoleiddiwr elusennau*") means the Charity Commission, the Office of the Scottish Charity Regulator, or the Charity Commission for Northern Ireland;

(**1**) 2022 asc 1.

ystyr "dogfennau llywodraethu" ("*governing documents*") yw—

(a) yn achos darparwr addysg drydyddol sy'n gwmni, ei femorandwm a'i erthyglau cymdeithasu;

(b) mewn unrhyw achos arall, dogfen sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad y darparwr a'i redeg;

ystyr "Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru" ("*the Credit and Qualifications Framework for Wales*")(**1**) yw'r ddogfen sy'n dwyn y teitl hwnnw a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, fel y mae'n cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd, ac sy'n cynnwys disgrifiadau o lefelau cymwysterau;

ystyr "rheoleiddiwr elusennau" ("*charity regulator*") yw'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

"governing documents" ("*dogfennau llywodraethu*") means—

(a) in the case of a provider of tertiary education that is a company, its memorandum and articles of association;

(b) in any other case, a document providing for the constitution and conduct of the provider;

"registered provider" ("*darparwr cofrestredig*") has the meaning given by section 144(1) of the 2022 Act;

"the Credit and Qualifications Framework for Wales" ("*Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*")(**1**) means the document with that title published by the Welsh Ministers, as updated from time to time, and which includes descriptions of levels of qualifications;

"tertiary education" ("*addysg drydyddol*") has the meaning given by section 144(1) of the 2022 Act.

Gwneud cais am ddynodiad yn sefydliad

3.—(1) Rhaid i gais gan ddarparwr addysg drydyddol am ddynodiad yn sefydliad o dan adran 83 o Ddeddf 2022 gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) enw a phrif gyfeiriad yr ymgeisydd;

(b) unrhyw enwau eraill y mae'r ymgeisydd yn gweithredu odanynt;

(c) copi o ddogfennau llywodraethu'r ymgeisydd;

(d) os mai elusen yw'r ymgeisydd, yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2);

(e) yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (3).

(2) Rhaid i ymgeisydd sy'n elusen ddarparu ei rif cofrestru elusen, a'r rheoleiddiwr neu reoleiddwyr elusennau y mae wedi ei gofrestru gydag ef neu gyda hwy neu'r rheswm pam nad yw cofrestriad o'r fath yn ofynnol.

(3) Rhaid i gais gynnwys—

(a) disgrifiad o'r addysg drydyddol y mae'r ymgeisydd yn ei darparu yng Nghymru, gan gynnwys lefelau'r cyrsiau, drwy gyfeirio at Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;

(b) disgrifiad o'r dyfarniadau y caniateir iddynt gael eu rhoi i bersonau sy'n ymgymryd ag addysg drydyddol yr ymgeisydd;

Applying for designation as an institution

3.—(1) An application by a provider of tertiary education to be designated as an institution under section 83 of the 2022 Act must be made in writing and contain—

(a) the applicant's name and principal address;

(b) any other names under which the applicant operates;

(c) a copy of the applicant's governing documents;

(d) if the applicant is a charity, the information specified in paragraph (2);

(e) the information specified in paragraph (3).

(2) An applicant that is a charity must provide its charity registration number, and the charity regulator or regulators with whom it is registered or the reason why such registration is not required.

(3) An application must contain—

(a) a description of the tertiary education the applicant provides in Wales, including the levels of courses, by reference to the Credit and Qualifications Framework for Wales;

(b) a description of the awards that may be conferred on persons undertaking the applicant's tertiary education;

(**1**) https://www.llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau

(**1**) https://www.gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw

(c) nifer y personau sy'n ymgymryd ag addysg drydyddol yr ymgeisydd ar ddyddiad y cais, a faint ohonynt sy'n gwneud hynny yng Nghymru;

(d) y lleoliadau lle y mae'r ymgeisydd yn darparu addysg drydyddol;

(e) cyfeiriad unrhyw wefan a gynhelir gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â'i ddarpariaeth o addysg drydyddol;

(f) copi o unrhyw brosbectws a gyhoeddir gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â'i ddarpariaeth o addysg drydyddol.

(c) the number of persons undertaking the applicant's tertiary education on the date of the application, and how many of them are doing so in Wales;

(d) the locations where the applicant provides tertiary education;

(e) the address of any website maintained by the applicant in connection with its provision of tertiary education;

(f) a copy of any prospectus published by the applicant in connection with its provision of tertiary education.

Tynnu dynodiad yn ôl

4.—(1) Wrth benderfynu pa un ai i dynnu dynodiad yn ôl, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gais y mae darparwr wedi ei wneud i dynnu ei ddynodiad yn ôl.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn tynnu dynodiad darparwr yn ôl, rhaid iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr sy'n cynnwys y rhesymau dros y penderfyniad a'r dyddiad y mae'r tynnu'n ôl yn cymryd effaith.

5. Ni chaiff Gweinidogion Cymru dynnu dynodiad darparwr yn ôl—

(a) tra ei fod yn ddarparwr cofrestredig, neu

(b) tra nad yw'n ddarparwr cofrestredig mwyach ond ei fod yn cael ei drin fel pe bai'n dal i fod yn ddarparwr cofrestredig at unrhyw ddiben.

Withdrawing a designation

4.—(1) When deciding whether to withdraw a designation, the Welsh Ministers must take into account any request a provider has made to have its designation withdrawn.

(2) If the Welsh Ministers withdraw a provider's designation, they must give the provider written notice containing the reasons for the decision and the date on which the withdrawal takes effect.

5. The Welsh Ministers may not withdraw the designation of a provider while—

(a) it is a registered provider, or

(b) it is no longer a registered provider but is being treated as if it were still a registered provider for any purpose.

Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch,
o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,
un o Weinidogion Cymru
6 Tachwedd 2024

Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
6 November 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39618-8

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/1126

9 780348 396188